**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR**

**SUBJECT:** **CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR - DYDD LLUN, 6 MAWRTH 2023 DYDD LLUN, 6 MAWRTH 2023**

**REPORT OF:**

---

PRESENT:

Councillors C. Smith (Aelod Llywyddol)
C. Bainton
P. Baldwin
S. Behr
D. Bevan
M. Cross
H. Cunningham
D. Davies
G. A. Davies
M. Day
S. Edmunds
J. Gardner
J. Hill
W. Hodgins
J. Holt
G. Humphreys
R. Leadbeater
E. Jones
J. C. Morgan
L. Parsons
D. Rowberry
T. Smith
J. Thomas
S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins
D. Woods

WITH: Prif Weithredwr Interim
Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg
Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol
Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau Cymdeithasol
Prif Swyddog Adnoddau
Prif Swyddog Masnachol a Chwsmeriaid
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethiant a Phartneriaethau
Rheolwr Gwasanaeth – Cyfrifeg
Rheolwr Gwasanaeth – Perfformiad a Democrataidd
Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:<br>Cynghorwyr K. Chaplin, J. Morgan, J.P., G. Thomas, D. Wilkshire and L. Winnett. | |

**No. 3** — **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**

Adroddwyd y datganiadau buddiant dilynol:

**Eitem Rhif 4: Cyllideb Refeniw 2023/2024**

- Cynghorwyr J. Gardner, W. Hodgins, E. Jones, D. Rowberry, J. Thomas a H. Trollope.

Arhosodd yr Aelodau a enwir uchod yn y cyfarfod tra ystyriwyd yr eitem hon o fusnes.

**No. 4** — **CYLLIDEB REFENIW 2023/2024**

Datganodd y Cynghorwyr J. Gardner, W. Hodgins, E. Jones, D. Rowberry, J. Thomas a H. Trollope fuddiant yn yr eitem ond ond fe wnaethant aros yn y cyfarfod tra'i bod yn cael ei hystyried.

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at baragraff 2.2 yr adroddiad a dywedodd fod y setliad terfynol yn awr yn cynnwys trosglwyddiad o gyllid i'r setliad llywodraeth leol, yn ymwneud â Phensiynau Awdurdod Tân ac Achub. Roedd gwerth y grant hwn yn gyfanswm o £5.8m yn genedlaethol ar draws Cymru ac roedd wedi cynyddu setliad terfynol Blaenau Gwent i £139,730,490. Dywedwyd fod y Cyngor wedi cytuno'n flaenorol i basportio'r cynnydd o £130,000 i'r Awdurdod Tân ac Achub, felly roedd gofyniad cyllideb y Cyngor yn awr wedi cynyddu o £178,034,276 i £178,164,692.

Fel canlyniad, byddai angen newidiadau i rai o'r ffigurau yn yr adroddiad, fodd bynnag tanlinellwyd na fyddai'r diwygiad hwn yn newid sefyllfa y Cyngor yng nghyswllt defnydd cronfeydd wrth gefn na'r cynnydd yn lefel y dreth gyngor.

Felly, i adlewyrchu'r cynnydd yn y setliad terfynol, byddid yn newid y symiau canlynol a gynhwysir o fewn yr adroddiad fel sy'n dilyn:

**Paragraff 3.1.2 –** caiff y ffigur hwn ei newid i £178,164,692.
**Paragraff 5.1.7 (a)** – byddai'r ffigur hwn yn awr yn £178,164,692.
**Paragraff 5.1.7 (c)** – byddai'r ffigur hwn yn awr yn £139,730,490.
**Paragraff 5.1.13** – caiff y ffigur yn y frawddeg gyntaf ei newid i £178,164,692.
**Paragraff 5.1.14 –** caiff ffigur y Grant Cymorth Refeniw yn awr ei

newid i £117,692,418, gan godi cyfanswm net y gyllideb refeniw £182,432,694.

Wedyn,

PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol i'r uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef:

- Cymeradwyo'r Datrysiad Treth Gyngor a fanylir isod.

- Cymeradwyo'r gofyniad cyllideb statudol o £178,164,692 a fanylir isod.

- Defnyddio'r cronfeydd penodol a ddynodwyd yn gyfanswm o £4.26m (paragraff 5.1.16 yr adroddiad).

**5.1.2** Yn ei gyfarfod ar 23 Chwefror 2023, cytunodd y Cyngor ar gynnydd o 3.45% yn y Dreth Gyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/2024. Fel canlyniad, elfen Cyngor Blaenau Gwent o'r tâl treth gyngor llawn fyddai:-

| Bandiau Prisiant (£) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| 1,219.57 | 1,422.84 | 1,626.10 | 1,829.36 | 2,235.88 | 2,642.41 | 3,048.93 | 3,658.72 | 4,268.51 |

**5.1.3** Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2022, cytunodd y Cyngor y byddai sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer dibenion gosod treth yn 20,8706.70 ar gyfer 2023/24, sef cyfanswm nifer yr anheddau y codir tâl arnynt ym mhob ardal wedi'i addasu ar gyfer nifer o eitemau e.e. gostyngiadau taladwy, wedi'i luosi gan y gyfradd casglu dybiedig o 95%.

**5.1.4** Yn ychwanegol, yn unol â Rheoliad 6 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrif Sylfaen y Dreth Gyngor) 1992, swm sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn ymwneud â nhw oedd:

| | |
|---|---|
| 4,617.75 | Abertyleri a Llanhiledd |
| 1,692.74 | Brynmawr |
| 2,698.63 | Nantyglo a Blaenau |
| 4,737.20 | Tredegar |

**5.1.5** Mae’r uchod yn cynrycholi nifer yr anheddau y codir tâl amdanynt y byddai prasept Cynghorau Tref a Chymuned yn weithredol iddynt.

**5.1.7** Bod y symiau dilynol yn awr yn cael eu cyfrifo gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2023/2024 yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac adrannau 47 a 49 Deddf Llywodraeth Leol 1988 (fel y’i diwygiwyd).

| | | |
|---|---|---|
| a | £178,164,692 | Sef croniad symiau amcangyfrifon y Cyngor am yr eitemau a nodir yn adran 32(2) (a) i (d) y Ddeddf llai croniad y symiau y mae’r Cyngor yn ei amcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn adran 32 (3) (a) a (c) y Ddeddf a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag adran 32(4) y Ddeddf fel ei ofyniad cyllideb ar gyfer y flwyddyn. |
| b | £208,000 | Sef swm amcangyfrifon yr Awdurdod yng nghyswllt Adrannau 47 a 49 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 fel y’i diwygiwyd gan Atodlen 1 Deddf Llywodraeth Leol a Threthi 1997, ar gyfer cymorth ardrethi annomestig dewisol. |
| c | £139,730,490 | Sef croniad symiau y mae’r Cyngor yn amcangyfrif fydd yn daladwy am y flwyddyn i’w gronfa Cyngor yng nghyswllt ardrethi annomestig a ailddosbarthwyd, grant cymorth grant a grant ychwanegol. |
| d | £1,857.35 | Sef swm (a) uchod ynghyd â’r swm yn (b) uchod a llai y swm yn (c) uchod, i gyd wedi eu rhannu gan y swm yn 5.1.3 uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, fel swm sylfaenol y Dreth Gyngor am y flwyddyn. |
| e | £582,331 | Sef swm cronnus yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(a) y Ddeddf (Praeseptiau Tref a Chymuned). |

| | | |
|---|---|---|
| f | £1,829.36 | Sef y swm yn (d) uchod llai y canlyniad a roddir drwy rannu'r swm yn (e) uchod gan y swm yn 5.1.3 uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, fel swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal nad oes unrhyw eitem arbennig yn cyfeirio atynt. |

**5.1.8** Y symiau a roddwyd drwy ychwanegu at y swm yn (f) uchod symiau'r eitem neu eitemau arbennig yn ymwneud ag anheddau yn y rhan hynny o ardal y Cyngor a nodir uchod wedi'i rannu ym mhob achos gan y swm yn 5.1.3 uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, fel swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhan hynny o'i ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn cyfeirio atynt oedd:

| | | |
|---|---|---|
| g | 1,891.94 | Abertyleri a Llanhiledd |
| | 1,854.76 | Brynmawr |
| | 1,863.14 | Nantyglo a Blaenau |
| | 1,862.96 | Tredegar |
| | | |

**5.1.9** Y symiau a roddwyd drwy luosi'r symiau yn (f) a (g) uchod gan y rhif sydd, yn y gyfran a nodir yn Adran 5(1) y Ddeddf, yn berthnasol i'r anheddau a restrir mewn band prisiant neilltuol wedi ei rannu gan y nifer sydd yn y gyfran honno yn berthnasol i anheddau a restrir ym Mand D prisiant, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, fel y symiau i gael eu hystyried am y flwyddyn yng nghyswllt categorïau anheddau a restrir mewn gwahanol fandiau prisiant oedd:

| | Treth y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys Praeseptiau Cymunedol | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bandiau Prisiant | | | | | | | | |
| | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Abertyleri a Llanhiledd | 1,261.29 | 1,471.51 | 1,681.73 | 1,891.94 | 2,312.37 | 2,732.80 | 3,153.23 | 3,783.88 | 4,414.53 |
| Brynmawr | 1,236.50 | 1,442.60 | 1,648.68 | 1,854.76 | 2,266.92 | 2,679.10 | 3,091.26 | 3,709.52 | 4,327.78 |
| Nantyglo a Blaenau | 1,242.09 | 1,449.11 | 1,656.13 | 1,863.14 | 2,277.17 | 2,691.20 | 3,105.23 | 3,726.28 | 4,347.33 |
| Tredegar | 1,241.97 | 1,448.97 | 1,655.97 | 1,862.96 | 2,276.95 | 2,690.94 | 3,104.93 | 3,725.92 | 4,346.91 |
| Glynebwy | 1,219.57 | 1,422.84 | 1,626.10 | 1,829.36 | 2,235.88 | 2,642.41 | 3,048.93 | 3,658.72 | 4,268.51 |

**5.1.10** Nodi bod Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent wedi dweud ar gyfer 2023/2024 y symiau dilynol mewn praeseptiau a gyhoeddwyd i'r Cyngor (cyfanswm o £6,752,190), yn unol ag Adran 40 Deddf Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangoswyd:

| Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bandiau prisiant (£) | | | | | | | | |
| **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| 216.35 | 252.40 | 288.46 | 324.52 | 396.64 | 468.75 | 540.87 | 649.04 | 757.21 |

**5.1.11** Ar ôl cyfrifo'r croniad ym mhob achos o'r symiau yn (g) a 5.1.9 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn gosod y symiau dilynol fel symiau'r Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn 2023/24 ar gyfer pob un o'r categorïau a ddangosir isod:

| | Treth Lawn Treth y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys Prasptiau Heddlu a Chymuned | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bandiau Prisiant | | | | | | | | |
| | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Abertyleri a Llanhiledd | 1,477.64 | 1,723.91 | 1,970.19 | 2,216.46 | 2,709.01 | 3,201.55 | 3,694.10 | 4,432.92 | 5,171.74 |
| Brynmawr | 1,452.85 | 1,695.00 | 1,937.14 | 2,179.28 | 2,663.56 | 3,147.85 | 3,632.13 | 4,358.56 | 5,084.99 |
| Nantyglo a Blaenau | 1,458.44 | 1,701.51 | 1,944.59 | 2,187.66 | 2,673.81 | 3,159.95 | 3,646.10 | 4,375.32 | 5,104.54 |
| Tredegar | 1,458.32 | 1,701.37 | 1,944.43 | 2,187.48 | 2,673.59 | 3,159.69 | 3,645.80 | 4,374.96 | 5,104.12 |
| Glynebwy | 1,435.92 | 1,675.24 | 1,914.56 | 2,153.88 | 2,632.52 | 3,111.16 | 3,589.80 | 4,307.76 | 5,025.72 |

**No. 5**

**<u>FFIOEDD A CHOSTAU CORFFORAETHOL 2023/2024</u>**

Ystyriodd Aelodau adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau

Nodwyd, er y cynigir cynnydd chwyddiant o 8% mewn rhai ffioedd a chostau fel canlyniad i'r costau cynyddol y mae'r Cyngor yn eu profi, cynigiodd Arweinydd y Cyngor gymeradwyo'r diwygiadau dilynol i'r ffioedd a'r costau a restrir isod:

**Gwasanaethau Cymdeithasol:**

- Gwasanaethau Amhreswyl – Gofal Cartref – **cynnydd 4%.**
- Gwasanaethau Amhreswyl – Gofal Dydd – **cynnydd 4%.**
- Gwasanaethau Amhreswyl – Taliadau Uniongyrchol – **cynnydd 4%.**
- Gwasanaethau Amhreswyl – Tâl Llety Rhan III (darpariaeth

| | | |
|---|---|---|
| | ei hun) – **cynnydd 4%.**<br>- Gwasanaethau Amhreswyl – Tŷ Augusta (darpariaeth ei hun) – **cynnydd 2%**<br>- Canolfan Dydd Bert Denning – Ffi Gwaelodlin Sylfaenol – **cynnydd 4%**<br>- Pwll Hydrotherapi Bert Denning – Ffi ar gyfer OLA a chwsmeriaid preifat ar ddyddiau'r wythnos – **cynnydd 4%**<br>- Pwll Hydrotherapi Bert Denning – Ffi defnydd penwythnos – **cynnydd 4%**<br>- Gofal Plant Dechrau'n Deg – Ffioedd gofal plant ar gyfer plant heb fod yn rhan o Dechrau'n Deg **– cynnydd 4%**<br><br>**Cyfathrebu – Ffioedd Larwm Cymunedol a Gwasanaeth Teleofal C2BG:**<br><br>- Ffioedd monitro – Lifeline analog gyda phendant – misol – **cynnydd 5%**<br>- Ffioedd monitro – Lifeline digidol gyda cherdyn Sim a phendant – misol – **cynnydd 5%**<br>- Ffioedd monitro – Lifeline analog gyda phendant a 5 synhwyrydd ychwanegol – misol – **cynnydd 5%**<br>- Ffioedd monitro – Lifeline digidol gyda phendant gyda 5 synhwyrydd ychwanegol - misol – **cynnydd 5%**<br>- Pecyn Diogelwch - (analog) argymhellwyd gan Weithiwr Cymdeithasol – misol – **cynnydd 5%.**<br>- Pecyn Diogelwch – (digidol) argymhellwyd gan Weithiwr Cymdeithasol – misol – **cynnydd 5%**<br>- Ffioedd gosod dechreuol – **cynnydd 5%.**<br>- Gosod pellach ar synwyryddion ychwanegol – **cynnydd 5%.**<br>- Gosod offer heb ei fonitro – **cynnydd 5%.**<br>- Pendant newydd – **cynnydd 5%.**<br><br>**Prydau Cymunedol:**<br><br>- Pryd ar Glyd – Pryd a Phwdin – **cynnydd 2%.**<br><br>**Gwasanaethau Cymunedol - Gwastraff:**<br><br>- Casgliad Gwastraff Swmpus – **cynnydd 4%.**<br><br>**Gwasanaethau Cymunedol - Mynwentydd:**<br><br>- Claddedigaeth – Bedd newydd – Dyfnder dwbl – **cynnydd 2%.** | |

| | | |
|---|---|---|
| | - Claddedigaeth – Ailagor bedd – **cynnydd 2%.**<br>- Claddedigaeth – Hawl claddu ecsliwsif (EROB) – **cynnydd 2%.**<br>- Olion wedi'u hamlosgi – Bedd newydd (isafswm dyfnder) Llwch – **cynnydd 2%**<br>- Olion wedi'u hamlosgi – Ail-agor bedd Llwch – **cynnydd 2%**<br>- Olion wedi'u hamlosgi – Gwasgaru llwch – **cynnydd 2%**<br>- Olion wedi'u hamlosgi – EROB – **cynnydd 2%**<br>- Lleiniau gardd orffwys – Olion wedi'u hamlosgi (bedd newydd) Llwch – **cynnydd 2%**<br>- Lleiniau gardd orffwys – Olion wedi'u hamlosgi (ail-agor) Llwch- **cynnydd 2%**<br>- Lleiniau gardd orffwys – EROB – **cynnydd 2%**<br>- Cofebau – Codi cofeb – **cynnydd 2%**<br>- Cofebau – Arysgrifiad ychwanegol, cofeb newydd – **cynnydd 2%**<br>- Cofeb – Cofeb baban marw-anedig (EROB)<br>- Cofeb – Adnewyddu, glân ac ailangori cofeb – **cynnydd 2%**<br>- Cofeb – Plac bach – **cynnydd 2%**<br>- Cofeb – Cais ychwanegol am amgylchyn/cofeb – **cynnydd 2%**<br><br>**Tiroedd – Tiroedd a Chaeau Chwarae - Gemau:**<br><br>- Hyfforddiant tiroedd a chaeau chwarae – **cynnydd 4%**<br>- Ffeiriau – **cynnydd 4%**<br>- Carnifalau/Digwyddiadau – **cynnydd 4%**<br>- Defnydd heb awdurdod – **cynnydd 4%**<br><br>**Priffyrdd:**<br><br>- Archwiliad dechreuol gostwng cwrb – **cynnydd 4%**<br>- Cau ffyrdd dros dro ar gyfer digwyddiadau (heb fod yn elusennol) – **cynnydd 4%**<br><br>**Gwasanaethau Technegol – Addysg – Prydau Ysgol:**<br><br>- Oedolion (Staff a Myfyrwyr) fesul pryd bwyd. Ffi yn weithredol o fis Medi – **cynnydd 2%.**<br>- Plant (Uwchradd a Chynradd) Plentyn oedran Uwchradd (blynyddol 7 i 11). Ffi yn weithredol o fis Medi. Ffi fesul pryd bwyd. A Phlant Ysgol Gynradd (Meithrin i Flwyddyn 6). Ffi yn weithredol o fis Medi. Ffi fesul pryd bwyd– **cynnydd 2%.** | |

**Datblygu Economaidd:**

- Archebion Masnachol mewn Canol Trefi – Canol Trefi Glynebwy, Tredegar, Blaenau, Abertyleri a Brynmawr – **cynnydd 2%.**

**Trwyddedu:**

- Trwyddedu – Tyllu Croen – Cofrestru Ymarferydd – **cynnydd 4%**

**Iechyd Cyhoeddus:**

- Iechyd Cyhoeddus – Tystysgrif Allforio Diogelwch Bwyd – **cynnydd 4%**

I adlewyrchu'r newidiadau uchod i'r adroddiad, cynigiodd yr Arweinydd ymhellach i gymeradwyo Opsiwn (3) diwygiedig, sef:

**Opsiwn 3**

1. Bod Aelodau'r Cyngor yn ystyried ac yn cymeradwyo'r gofrestr ddiwygiedig o Ffioedd a Chostau ar gyfer 2023/2024, a'r cynnydd pris craidd yn ymwneud ag Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin a atodir yn Atodiad 2.

2. Bod aelodau'n cymeradwyo pŵer dirpwyedig a chyfrifoldeb i'r Cyfarwyddwr Interim Gwasanaethau Cymdeithasol am osod y ffioedd a chostau ar gyfer 2023/2024 yn ymwneud â darparu gofal cymdeithasol allanol.

Eiliwyd y cynnig.

PENDERFYNWYD yn unol â hynny.

PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 3, sef:

- Cymeradwyo cofrestr ddiwygiedig Ffioedd a Chostau ar gyfer 2023/2024 a'r cynnydd pris craidd yn ymwneud ag Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin a roddir yn Atodiad 2.

- Cymeradwyo pŵer a chyfrifoldeb wedi ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Interim Gwasanaethau

| | | |
|---|---|---|
| | Cymdeithasol am osod ffioedd a chostau ar gyfer 2023/2024 yn ymwneud â darpariaeth gofal cymdeithasol allanol. | |